CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
CYFARFOD MISOL 26ain O FIS CHWEFROR 2009 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS SAN PEDR LLANBEDR P.S.

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Maer Derek Wilsom bawb i'r Cyfarfod a dywedodd y mawr obeithiai y byddai pob unigolyn yn mwynhau'r lleolaid newydd sef Neuadd yr Eglwys San Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Penderfynwyd ymgymryd ag ymholiadau i weld tybed os oedd yn bosibl i gyfarfod yn y neuadd yn rheolaidd.

YN BRESENNOL

Y Maer Derek Wilson (Cadeirydd);
Dirprwy-Faer Selwyn Walters (Is-gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis;
John Davies; Greg Evans; Lynda Mason-George;
Robert Phillips; Kistiah Ramaya & Dorothy Williams.
Cyng. Tref & Sirol Robert (Hag) Harris.

AR DDECHRAU'R CYFARFOD YN UNIG

Mr Aled Sion – Trefnydd Cenedlaethol Eisteddfod yr Urdd
Mr Rhys Bebb-Jones - Trysorydd Pwyllgor Apêl Llanbedr PS Eistedddod yr Urdd 2010

SYLWEDYDDION

Dinah Jones – Darlithydd Astudiaeth y Cyfryngau, Prifysgol Llanbedr PS
Myfyrwyr yn ymgymryd â'r Modiwl yn ymwneud â'r Cyfryngau (oddeutu 10 ohonynt)
Mr Carl Stringer (Gohebydd y Wasg – yn gweithio ar ei liwt ei hun)
Mr Wil Gant (Gohebydd y Wasg – Cambrian News)

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL

Ymddiheurodd y Gyng. Margaret Davies-Evans a'r Cynghorydd Sirol Ifor Williams am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.
Roedd aelodau'n flin i glywed am farwolaeth perthynas agos i'r Gyng. Margaret Davies-Evans.
Pleser oedd cael presenoldeb y Gyng. Cecilia Barton ar ôl iddi dderbyn llawfeddygaeth yn ddiweddar. Dymunwyd adferiad cyflym iddi.

3. FFORWM AR GYFER Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

4. CYN DECHRAU'R CYFARFOD DERBYNIWYD GYFLWYNIAD *POWER-POINT* GAN MR ALED SION *Trefnydd Cenedlaethol Eisteddfod yr Urdd,* yng nghwmni Mr Rhys Bebb-Jones: *Tysorydd Pwyllgor Apêl Llanbedr PS Eisteddfod yr Urdd 2010.*
Pwrpas y cyflwyniad oedd codi ymwybyddiaeth aelodau o'r Eisteddfod yr Urdd 2010 ac i wneud cais am gymhorthdal. Cynhelir yr Eisteddfod yn Llanarchaeron a'r gost i'w llwyfannu yw oddeutu £2miliwn. Clustnodwyd aneliad ar gyfer yr holl gymunedau yng Ngheredigion. Nôd Llanbedr PS yw £8,000.
Soniodd Mr Sion am fanteision y *Digwyddiad Diwylliannol ar gyfer yr Ieuenctid,* gan gynnwys hwb i'r economi leol, gan fe dybir y bydd nifer o'r staff yr Eisteddfod yn aros yn Llanbedr PS yn ystod yr wythnos honno.

i gloi, cyflwynodd y Maer Derek Wilson, siec o £500 i Mr Rhys Bebb-Jones fel cyfraniad tuag at Apêl Llambed. Penderfynwyd mewn cyfarfod blaenorol i wneud cyfraniad ychwanegol yn ystod y dyfodol.

5. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

5.1 **Datgelodd y Cyng. Barton, Ramaya a Harris** ddiddordeb personol pan drafodwyd y cais am gymorth ariannol oddi wrth y Gymdeithas *Cerdd Llambed* gan eu bod yn Noddwyr o'r Gymdeithas.

5.2 **Datgelodd y Gyng. Dafis** ddiddordeb personol pan darfodwyd y cais am gymhorthdal oddi wrth Bwyllgor *Gŵyl Dewi Drwg,* gan ei bod yn Aelod â statws Gweithredwr ar Bwyllgor Gŵyl Dewi Drwg.

5.3 **Cyng Walters a Harris**: Y Cais Cynllunio A090086CD: gosod Tyrbin Wynt 6kw, gan gynnwys tŵr 15m a chlafnau 5.5m tryfesur – Ysgol Uwchradd Llanbedr PS: gan eu bod yn aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr.

5.4 **Y Cyng. Phillips**:Y Cais Cynllunio A090086CD: gosod Tyrbin Wynt 6kw, gan fod ei dŷ'n trosedrych y Datblygiad Tyrbin Wynt arfaethedig.

6. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Derbyniwyd llythyr gan un o drigolion Pontrhydfendigaid, Ceredigion a oedd mewn cyfyng-cyngor ac yn mynegi cythrudd, oherwydd ymddygiad bygythiol unigolion ar Sgwâr Harford, Llambed ar y 9fed o Ionawr 2009 am 10.30am.
Gresynwyd y sefyllfa a'r oedi yn nyfodiad yr *Ardal Di-Alcohol* ar gyfer ardaloedd o fewn y dref. Adroddodd y Clerc iddi gysylltu â Chadeiryddes o'r *Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* ac yn disglwyl diweddaraf parthed y mater. Penderfynwyd ail-gyferio'r llythyr at sylw'r Uwch Arolygydd Calvin Griffiths a'r *Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion* er mwyn oroleuo difrifwch y sefyllfa ac am yr angen am ymdrech gydweithredol i sicrhau dyfodiad y Gorchymyn.

7. TRAFODAETH: Y SEFYLLFA YN YMWNEUD Â'R SEDD WAG A'R FFORDD YMLAEN

Penderfynwyd yn y cyfarfod olaf i beidio â newid y *Polisi-i-Beidio-a-Chydethol* y Cyngor Tref. Ers hynny, boed i Glerc-y-Dref ymgymryd â gwaith ymchwil parthed y mater a derbyniwyd cyngor o nifer o ffynonellau ee

Mr Paul Clayden MA Cyfreithiwr a Phrif Weithredwr *Gwasanaeth Sy'n Cynnig Cyngor ar Gyfer Awdurdodau Leol*. Dywedodd, "os oes lle gwag, mae'n orfodol i'r Cyngor i'w llenwi cyn gynted â phan fo'n *ymarferol,* os nad yw'r lle gwag yn codi o fewn 6 mis i Etholiad Cyffredin- rheol 5(5) yr Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) Rheolau 2006 (S1 2006/3305)…Gan nad oedd Is-Etholiad wedi ei galw i lenwi'r sedd wag, mae'n orfodol i'r Cyngor Tref i'w llenwi drwy gyfethol aelod newydd."

(Arddangoswyd Hysbyseb yn caniatau 10 etholwr o ardal etholedig Ward Llambed i ofyn am Etholiad ym mis Awsr 2008 ond ni dderbyniwyd ymateb gan y Cyhoedd).

Adroddodd ffynonellau eraill megis y *Cynulliad Cenedlaethol Cymru* "Nid yw'r lle gwag yn codi oherwydd ni fedrai un Cynghorydd ymgymryd â'r *Datganiad Derbyn Swydd*, anheilyngdod, ymddiswyddiad neu farwolaeth. Mae'r fath yma o le gwag ar y CT wedi codi gan nad oedd nifer yr ymgeiswyr adeg yr Etholaid (Mai 2008) yn ddigonol i lenwi'r holl seddau. Llenwir fath yma o sedd wag gan gyfethol aelod newydd…. Mae'r gyfraith (adran 21) (2a) yn mynegi y *gall* aelodau gyfethol. Os y

mae hyn yn golygu y gall aelodau gael polisi mewn lle i bedio â chyfethol, bydd yn ofynnol i chi dderbyn dehongliad cyfreithiol eich hun."
(Christine Rees, Tîm Democratiaeth, Adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru".

Roedd ffynonellau eraill o'r farn y gallai rhif swyddogol y CT gael ei newid o 15 i 14 os na fyddai ymdrech yn cael ei wneud i lenwi'r sedd. Roedd gan y CT ddyletswydd i'w etholwyr i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n llawn. Roedd eraill o'r farn mai penderfyniad y CT oedd pwy y dylid ei g/chyfethol a phryd ddylai hyn ddigwydd.
Ar ôl trafodaeth hir penderfynwyd ceisio etholiad i lenwi'r sedd.

8. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR: 29/01/2009 A CHYFARFOD YR IS-BWYLLGOR 17eg CHWEFROR YNGLŶN Â CHAE MAESYDERI

Cytunwyd eu bod yn gywir arwahân i Bwynt 9.6 a chofnod o enw Mr Jamie McCormack-Jones. Dylai ddarllen **Mr Jamie McCormack Turner**.

9. CADARNHÂD – Y SWYDD O FAER A'R DIRPRWY-FAER AR GYFER Y FLWYDDYN FWRDESITREFOL NESAF

Ymateb gan y Dirprwy-Faer Selwyn Walters yn mynegi ei fod yn derbyn y swydd o *Faer* am y flwyddyn 2009-10. Dywedodd yn yr ymateb "Mae'n anrhydedd o fri ac mi wnaf fy ngorau glas i gyflawni dyletswyddau'r swydd hyd eithaf fy marn a fy ngallu."
Ymateb gan y Cyng. Robert Phillips yn mynegi ei fod yn fraint i gael cynnig y swydd o Ddirprwy-Faer ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf a'i fod "yn hapus i dderbyn y cynnig"

10. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

10.1 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: Y Maer i wella cyflwr y fframwaith cyn gynted â phosibl.

10.2 Cymuned ar y Cyd: Meithrin cyd-berthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref; canllawiau terfynol Llywodraeth Cynulliad Cymru- y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

10.3 Cynllun Diogelwch a Chymunedol Ceredigion 2008-11: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: - y ddogfen yn cael ei throsglwyddo o un aelod i'r llall**.**

10.4 Bin Ail-gylchu: boed i'r Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn caniatâd i leoli'r bin yn ardal Sgwâr Harford: yn dal i ddisgwyl clywed oddi wrthynt.

10.5 Tir Ym Maesyderi (Yr Hen Gae Chwarae yr Ysgol Gynradd): boed i gyfarfod cymryd lle rhwng cynrychiolaeth y CT a chynrychiolydd CSC ar y 17eg o Chwefror. (Cofnodion wedi eu dosbarthu ynghynt). Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyhoeddus i gynnwys trigolion Maes-y-Deri/Gwêl y Creuddyn, Penbryn a Bryn-yr-Eglwys ar y 26ain o Fawrth am 7.00pm er mwyn holi barn ar ddefnydd dyfodol y Cae Chwarae fel amwynder ar gyfer trigolion yr Ardal.

10.6 Llogi'r Cae Bryn: i atgofio Mr Cen Powell *Rheolwr Ystadau ac Eiddo Prifysgol Llanbedr PS* o ddiddordeb y CT i logi'r cae. Mae'r les yn dirwyn i ben ar y 12fed o Ebrill 2009.

10.7 Trefi Taclus: penderfynwyd i geisio cyfarfod rhwng cynrychiolaeth y CT â Rachel Mills Cydlynydd Balchder Bro CSC i drafod yn bennaf, y defnydd posibl ar gyfer Cae Maesyderi. Mae Rachel Mills yn gyfrifol am y cynllun "Trefi Taclus" sef bartneriaeth tair blynedd o hyd rhwng CSC a Chadw Cymru'n Daclus a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd grant o

£104,000 y flwyddyn i Geredigion tra bo'r prosiect yn mynd rhagddo. Dylai prosiectiau wella ansawdd y cynefin lleol a chynnwys y gymuned. Materion eraill i'w trafod:

10.7.1 Bin Ail-gylchu ar gyfer y dref;angen gwybodaeth pellach er bod cais manwl wedi ei gyflwyno eisoes.

10.7.2 Cael gwared â'r graffiti di-olwg o ardaloedd penodedig o fewn y dref.

10.7.3 Gwelliannau ar gyfer Neuadd y Sgowtiaid

10.7.4 Biniau Cŵn yn Baeddu.

10.8 **Seddau ar gyfer y Swyddfa'r Post**, Llanbedr PS: yn disgwyl ateb oddi wrth y Co-op. Y Clerc i'w hatgofio, unwaith yn rhagor.

10.9 **Newid Enw Lle – King George V Green**: roedd awgrymiadau gan y cyhoedd yn cynnwys **Parc St. Germain-sur-Moine**, Le Parc Agniou Gallois, La Place du St. Germain-sur-Moine a Le Petit Jardin (gan ei fod yn cael ei alw'n *Y Parc Bach*). Penderfynwyd derbyn Parc St. Germain-sur-Moine a gyflwynwyd gan Mrs Carol Ramaya Cymdeithas Gefeillio Llanbedr PS ac i hysbysu'r CSC.

10.10 **Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru -**Gweithdŷ 10/12/2008 – Coleg Y Drindod, Caerfyrddin:
A yw nifer y Cynghorwyr i'r Etholwyr yn gywir? Cyngor Tref Llanbedr PS (114:1); Cyfartaledd Cenedlaethol (Cymru) (205:1); Adroddwyd fod ymgais yn cael ei wneud i godi cyfarteledd Cynghorwyr Cyngor Tref Llanbedr PS i Etholwyr gan annog unigolion 18+ i gyfrannu mewn etholiadau lleol.

10.11 **Eiddo'r Cyngor Tref**: wedi eu storio ynghynt yn Neuadd y Dref ond, erbyn hyn, wedi eu hadleoli i leoedd eraill megis

- **12 cadair ledr goch**; 3 Cadair Beirniad, Panel Mawr- ail lawr – Swyddfa y Cofrestrydd, Stryd Fawr, Llanbedr PS;
- **2 Gadair Eisteddfod** (un cadair – Ysgol Uwchradd Llanbedr PS; un cadair Ysgol Gynradd Ffynnonbedr);
- **Bwrdd Anrhydeddu** (Cyng. Greg Evans Swyddfa Ddidoli, Swyddfa'r Post Cyf, Teras yr Orsaf, Llanbedr PS)

Penderfynwyd anfon llythyr i ddiolch i Mr John Jones, Dolaugwyrddion (Y Cofrestrydd) am ei garedigrwydd yn caniatau'r CT i storio'r dodrefn dan sylw o fewn adeilad y Swyddfa Cofrestrydd. Diolchwyd hefyd i'r Cyng. Greg Evans am ddarganfod cartref dros-dro ar gyfer y Bwrdd Anrhydeddu.

10.12 **Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion 2008:** Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yr Heddlu: cytunodd y Dirprwy-Faer Selwyn Walters i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen.

10.13 **Bydd Dr Brinley Jones a Mrs Trish Carter** yn mynychu cyfarfod Mis Ebrill y Cyngor Tref pan fyddant yn trafod goblygiadau cyfuno Prifysgol Llanbedr PS â Choleg y Drindod, Caerfyrddin. O dan arweinyddiaeth y Dr Medwin Hughes, sef Prifathro Coleg y Drindod, Caerfyrddin ar hyn o bryd ac a benodwyd erbyn hyn yn Ddarpar Is-Ganghellor, bydd y brifysgol newydd yn adeiladu ar draddodiadau ac adnoddau'r ddau sefydliad.

10.14 **Llythyr gan Mr Jamie McCormack Turner 2 Glyndwr, Teras-yr-Orsaf,** Llanbedr PS, yn gofyn am y ddarpariaeth o arwydd stryd ar gyfer 5 Tŷ Teras Glyndwr. Awgrymodd 1-5 Glyndwr. Yn disgwyl ateb gan y Cyngor Sir.

10.15 **Cyngor ar Bopeth:** parthed cais y CT am gyflwyniad. Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.

10.16 **Cynllun Grantiau Bach Gweithgaredd Lles i hybu Iechyd a Lles yng Ngheredigion CSC:** yn disgwyl ateb ynglŷn â chais y CT am gymhorthdal**.**

10.17 **Cais am Flychau Graeanu (Halen a'r Blwch**) ar gyfer Ystâd Penbryn a Maes Parcio'r Rookery: yn disgwyl clywed oddi wrth GSC am ganlyniad y cais.

10.18 Gofynnwyd i GSC petai'n bosibl i'r Heol Un-Ffordd Mountwalk gael ei throsi i ganiatau cerddwyr yn unig am resymau diogelwch. Ystyriwyd y cais am gymhorthdal ond gan fod yr ysgol yn newydd a gan fod cymhorthdal yn cael ei gynnig ar gyfer materion yn ymwneud â safleoedd presennol, byddai'n ofynnol i'r cais gydfynd â gofynion y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r CSC yn ystyried yr holl ohebiaeth a dderbyniwyd yn barod ac yn ymchwilio i weld tybed os oes cyllid ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Ar hyn o bryd, cynigir taith arall i'r ysgol ar lwybrau cerdded sy'n bodoli'n barod. Ystyrir hyn a hefyd effaith cynllun posibl pan fydd y mater yn derbyn sylw pellach. Bydd yr holl agweddau yn derbyn ystyriaeth, gan gynnwys pa gerbydau sy'n defnyddio'r heol ar adegau mwyaf prysur – sef staff/rhieni'r ysgol neu gyrrwyr sy'n defnyddio'r heol fel rhan arferol o'u taith. Petai'r categori a nodir yn gyntaf yn gyfrifol am y chwyddiant mewn traffig, un opsiwn mewn nifer o opsiynau yw cynnal *Ymgyrch Diogelwch ar y Ffordd* i godi ymwybyddiaeth o'r pryderon. Adroddwyd fod cyfarfod safle wedi ei drefnu ar gyfer Ddydd Llun 30ain o Fawrth rhwng cynrychiolaeth y CT a Rachel Thomas CSC.

11. GOHEBIAETH

11.1 Tlws Cydnabyddiaeth Gwirfoddoli Ceredigion 2009: penderfynwyd cyflwyno enwebiad ar gyfer y catergori Gwobr Gwirfoddoli (dros 25)**.**

11.2 Diweddaraf parthed y Ddogfen: Datganiad ynglŷn â Sefyllfa Llys Prifysgol Cymru Llanbedr PS: Cymdeithas Llanbedr PS, Y Sefydliad Alumni ar gyfer Prifysgol Cymru Llanbedr PS; Cytunodd y Maer i gyflwyno ymateb i'r ddogfen.

11.3 Crynodeb: Ymateb Cynghorau Tref a Chymuned i'r Ymgynghoriad y Parti Werdd Cymru – Gwell Bysiau i Bawb; (gweler yr atodiad)

11.4 Cau Ffordd Dros Dro: Mount Walk Llanbedr PS: o 8:00am 9fed o Fawrth 2009 i 5:00pm 13eg o Fawrth 2009: mae'r cau yn angenrheidol er mwyn gwarantu diogelwch y cyhoedd am y cyfnod yma.

11.5 Tai Amlfeddiannaeth Yng Ngheredigion (TA) CSC: Newyddion a Fforymau Landlordiaid i'w cynnal yng Ngheredigion. 9fed o Fawrth 2009, Prifysgol Llanbedr PS: er gwybodaeth.

11.6 Cered: Cymanfa'r Pwerdai 14eg o Fawrth: Theatr Felinfach: er gwybodaeth.

11.7 Llythyr oddi wrth Mr Elfyn Williams Swyddog Datblygu Un Llais Cymru, yn llongyfarch y CT am ei lwyddiant diweddar yn y gystadleuaeth *Calor Pentref y Flwyddyn.*

11.8 Diwrnod Agored y Llys: Llys Ynadon Aberystwyth Dydd iau 12fed o Fawrth 10am tan 4pm: er gwybodaeth.

11.9 Shelter Cymru: Michelle Rosser Swyddog Prosiect yn gofyn petai'n bosibl iddi wneud cyflwyniad i'r CT. Penderfynwyd ei gwahodd i gyfarfod Mis Mai.

11.10 Garddwest Plas Buckingham 14eg Gorffennaf 2009: i gyflwyno enwau'r Maer Derek Wilson a Mrs Cynthia Wilson.

11.11 Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2007-08: Llywodraeth Cynulliad Cymru: Mae'r Adroddiad 2007-08 yn adlewyrchu'r ffaith bod y bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru yn parhau i fod yn un effeithiol. Mae hyn wedi eu galluogi i wneud cynnydd da o ran cyflawni'r ymrwymiadau a rannant i wella ansawdd bywyd i bawb yng Nghymru.

11.12 Cŵn yn baeddu: Gwybodaeth oddi wrth Y Cyngor Sir yn barod i ddarparu bin am £180 a'r gost ychwanegol o £10/£25 i wacau'r bin bob tro. Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Sir parthed "Perchnogion Cŵn Anghyfrifol". Yng

nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai'r Cyngor Sir ar 17 Rhagfyr 2008 mynegodd yr aelodau eu siom a'u dicter ynglŷn â'r problemau y mae trigolion Ceredigion yn dal i'w hwynebu o ganlyniad i ymddygiad lleiafrif o berchnogion cŵn. Tra bo'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd agwedd resymol tuag at gyfrifoldebau perchen ar anifeiliaid anwes, nid yw hynny yn anffodus yn wir am bawb. Roedd y problemau a oroleuwyd yn cynnwys:

11.12.1Pobl sy'n peidio â chodi baw eu cŵn oddi ar balmentydd, llwybrau troed, llwybrau beicio ayyb;
11.12.2Baw cŵn sy'n cael ei godi a'i roi mewn bagiau polythen a bod y bagiau wedyn yn cael eu bwrw o'r neilltu, yn cael eu clymu wrth ffensys neu ganghennau ayyb;
11.12.3Cŵn sy'n cael ymarfer corff ar feysydd chwaraeon, meysydd chwarae ysgolion ac mewn mannau chwarae penodol i blant;
11.12.4Perchnogion sy'n cael gadael i'w cŵn fawa ar dir ac mewn mannau ble y mae plant yn chwarae.

Darparwyd nifer o daflenni gan y CSC yn atgofio perchnogion cŵn o'u cyfrifoldebau. Cytunwyd archebu 100 o daflenni i'w harddangos mewn lleoedd amlwg yn y gymdogaeth. Os bydd y cyhoedd yn ymwybodol o fannau yn y dref lle y mae baw cŵn yn broblem arbennig, y mae croeso iddynt gysylltu ag Adain Diogelu'r Amgylchedd CSC 01545 572105 a gwneir trefniadau i un o'r Wardeiniaid Cymunedol gysylltu â hwy i drafod yr amgylchiadau ac arddangos rhybuddion ychwanegol i gynorthwyo yn y broses o atgoffa pobl o'u cyfrifoldebau. Bu'r CSC yn cynnig gwasanaeth wardeniaid cŵn uwch o'r blaen ar gyfer cynghorau tref a chymuned a fyddai'n sicrhau bod wardeniaid yn mynychu mewn modd gwarantiedig drwy gytundeb. Os hoffai'r CT ystyried dod i'r fath gytundeb, gellir cysylltu â Mr Dewi Roberts, pen Swyddog Iechyd yr Amgylchedd gyda'r Adain Diogelu'r Amgylchedd (Ffôn 01545 572105) ac os bydd digon o ddiddordeb a bod cronfeydd posibl ar gael, gallai fod cyfle i greu mwy o alluded gorfodi.

Bydd y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch cyhoeddusrwydd yn y misoedd nesaf a fydd yn goroleuo'r peryglon sydd a wnelo â baw cŵn a'r effaith andwyol a gaiff ar lwybrau troed a mannau eraill a ddarperir er mwynhad pawb, ac nid yn unig fel tai bach i gŵn.

11.13 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

12. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans y newyddion diweddaraf yn ymwneud â Menter Llambed.

12.1 Transition Llambed: Cynhelir y Digwyddiad Cymdeithasol sef *Dathliad o'r Gwanwyn* ar 21ain o Fawrth yn Neuadd San Iago, Cwmann.

12.2 Bydd *Transition Llambed* yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt logi'r Neuadd ar gyfer cynnal Marchnad i'r Dref yn ogystal â chynadleddau, cyfarfodydd ac achlysuron arlwyo. Cynhelir Gyfarfod Cyhoeddus ar y 24ain Ebrill yn Neuadd Fictoria.

13. CYNLLUNIO

13.1 Derbyniwyd y ceisiadau canlynol gan GSC

Dyddiad a dderbyniwyd y cais gan y CT& Rhif yCais	Ymgeisydd:	Cais i :	Lleoliad:	Sylwadau'r Cyngor Tref:
5/02/2009 A090061	Mr C Doughty	Newid defnydd gan greu un fflat ar gyfer y llawr a rhan o dŷ wedi ei osod arwahân i gynnwys 2 lawr a 3 ystafell wely	31 Stryd Fawr, Llanbedr PS.	Dim gwrthwynebiad
5/02/2009 AO90062LB	Mr C Doughty	Newid defnydd gan greu un fflat ar gyfer y llawr a rhan o dŷ wedi ei osod arwahân i gynnwys 2 lawr a 3 ystafell wely gan gynnwys newidiadau oddi fewn a thu allan.	31 Stryd Fawr, Llanbedr PS	Dim gwrthwynebiad
16/02/2009	Ysgol Uwchradd Llanbedr PS	Gosod Tyrbin Wynt sy'n cynnwys tŵr a chlafnau tryfesur 5.5m (Cyfanswm yr uchder i gopa'r clafnau 17.75m)*****	Ysgol Uwchradd Llanbedr PS	Dim gwrthwynebiad

*****

Ers peth amser, mae'r ysgol wedi ceisio ffyrdd i ostwng eu hôl-troed carbon ac i greu ynni adnewyddadwy ar safle'r ysgol, fel adnodd addysgiadol. Mae'r ysgol yn cydweithio ag *Awel Aman Tawe*, elusen ynni gymunedol De Cymru, i'w helpu i asesu ymarferoldeb gosod tyrbin wynt ar safle'r ysgol ac i gyflwyno cais cynllunio.

Gweithgar iawn yw'r ysgol parthed materion yr amgylchedd a maent ynghlwm â nifer o gynlluniau. Chwaraeodd blant o *Bwyllgor yr Eco* ran allweddol drwy gydol y prosiect ac er mwyn gwella eu dealltwriaeth ymgymrwyd â gwaith ymchwil ynglŷn ag ynni adnewyddadwy ac ynni'r gwynt. Defnyddir y Tyrbin Wynt fel teclyn addysgiadol a bydd panel arddangos o fewn yr ysgol yn dangos faint o ynni sydd wedi ei gynhyrchu. Roedd yr holl weithgareddau hyn yn haeddu clod ym marn aelodau'r Cyngor Tref.

13.2 Boed i'r ceisiadau canlynol eu caniatau gan GSC

Hysbyswyd gany CT gan GSC	Rhif y Cais:	Ymgeisydd	Lleoliad	Caniatâd ar gyfer:

18/12/2008	AO81158	Mr C. Saunders	LAS Cyf, Heol Tregaron, Llanbedr PS	Newid Amod Rhif o'r Caniatâd cynllunio A031102
17/12/2008	A081123	Mr JH Jones	Tŷ Newydd Ffordd Glynhebog Llanbedr PS	Codi aneddle
12/02/2009	A081060	MR D Jenkins	Fferm Castell Heol Llanfair Llanbedr PS	Codi sied lloia amaethyddol

13.3 **Cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC:** Swyddfa'r Cyngor Sir, Penmorfa Aberaeron, 14/01/2009 ac Agenda y cyfarfod o'r 11/02/2009: er gwybodaeth**.**

13.4 **Cyngor Sir Ceredigion: Ymgynghori Cyn Adneuo ar Ddogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol**: Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae'r Cyngor yn bwriadu ymgynghori ynghylch Dogfennau Cyn Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhan hon o'r ymgynghori'n cynnwys y dogfennau canlynol: (1,2&3) 1) Y Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys: Y materion allweddol sy'n effeithio ar Geredigion; Y Welediagaeth a'r Amcanion, Y brif strategaeth ar gyfer cyfnod y Cynllun, Y polisiau strategol allweddol, Methodoleg asesu'r safleoedd arfaethedig posibl. 2) Adroddiad Dechreuol Arfarnu Cynaladwyedd; & 3) Adroddiad Sgrinio'r Asesiad y Rheoliadau Cynefinoedd.

Bydd dogfennau Cyn Adneuo'r CGLl yn amlinellu lefel y twf sydd dan ystyriaeth, lleoliad y twf, pa ardaloedd i'w diogelu ac ati. Cynhelir tri o gyfarfodydd rhanbarthol gyda'r Cynghorau Tref/Cymuned i esbonio rhagor ar y broses uchod, y cyntaf ar gyfer Ddydd Mawrth 3 Mawrth 2009 Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron: er gwybodaeth.

13.5 **Rhestr Ddilysu Leol ar gyfer Ceredigion:** Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno ffurflenni ceisiadau cynllunio safonol cenedlaethol, a elwir yn 1APP. Caiff pob cais yn awr ei gyflwyno ar ffurflenni 1APP. Fel rhan o'r 1APP, mae'r llywodraeth wedi diffinio gofynion cenedlaethol ar gyfer yr wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais cynllunio. Mae gofynion lleol mandadol i'w hychwanegu at y gofynion cenedlaethol hyn, a benderfynir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae'r canllawiau dilysu drafft yn awr yn destun cyfnod ymgynghori o chwe wythnos. Bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor ynghyd ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ddogfen ddrafft. Caiff y canllawiau eu mabwysiadu i'w defnyddio wrth ddilysu cais o'r 4ydd o Fai 2009. Dylid dychwelyd sylwadau erbyn 26ain o Fawrth: nodwyd er gwybodaeth.

13.6 **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**: Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn datblygu Cyffredin) 1995 Erthygl 13 Hysbysu Cynghorau Cymuned: Yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod mae Cynghorau Cymuned yn cael 14 o ddiwrnodau i ymateb ar ôl cael eu hysbysu ynglŷn â chais. Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod o bosibl na fydd y Cyngor Cymuned ond yn cwrdd unwaith y mis a bod hynny'n gallu peri oedi o ran ymateb i'r awdurdod cynllunio lleol. Er mwyn hwyluso'r broses o benderfynu ynghylch ceisiadau mae'r awdurdod yn bwriadu rhoi rheol 14 o ddiwrnodau ar waith. O dan y rheol honno os na fydd yr awdurdod cynlluniio lleol wedi cael ymateb o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl anfon hysbysiad, bydd yr awdurdod yn penderfynu ynghylch y cais.

Mae'r CSC yn gwerthfawrogi y bydd angen amser ar y Cynghorau Cymuned i roi gweithdrefnau ar waith er mwyn iddynt fedru ymateb i hysbysiadau o fewn 14 o ddiwrnodau megis dirprwyo'r ymateb i'r Cadeirydd neu i is-bwyllgor o'r Cyngor ac o'r herwydd nid yw'n fwriad rhoi'r rheol 14 o ddiwrnodau ar waith ar unwaith. Bydd y CSC yn rhoi gwybod i'r Cyngort Tref pan fwriedir rhoi'r rheol 10 o ddiwrnodau ar waith: nodwyd er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol.

13.7 **Y Cynllun Datblygu Lleol** – Archwiliad Mannau Agored: Y mae'r CSC yn paratoi CDLL ar gyfer y Sir ar hyn o bryd. Un maes y mae angen ymchwilio iddo yw darpariaeth y mannau agored (meysydd chwarae/mannau hamdden) sydd ar gael ymhob ward yng Ngheredigion. Boed i'r Cyng. Hag Harris amlinellu yr amfesur y chyfleusterau sy'n bodoli yn nhref Llambed ar y map cyn ei ddychwelyd at GSC.

- Cae Coffa (pêl droed/rygbi/lle chwarae bychan Parc-y-Felin)
- Caeau Chwarae'r Ysgol Uwchradd
- Cae Chwarae'r Ysgol Gynradd
- Cae Chwarae'r Brifysgol
- Clwb Bowlio
- Parc "King George V" neu'r Parc Bach
- Cwrt Tennis y Brifysgol
- Parc-yr-Orsedd (CT)
- Y Gofgolofn (CSC)
- Lle Caled Chwarae (CSC) ger y Clwb Bowlio
- Lle Agored Penbryn
- Lle Chwarae Maesyderi (CSC)
- Cae'r Bryn (Prifysgol Cymru)

Bydd yr wybodaeth yn cynorthwyo RAY Ceredigion, sef prif gorff ar gyfer Prosiect Chwarae plant y gronfa Loteri Fawr sydd â'r bwriad o ddatblygu rhwydwaith mewnol yn y sir ar gyfer cefnogi darpariaeth chwarae mynediaid agored yng Ngheredigion ar gyfer plant a phobl ifanc.

13.8 **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin**: Cyhoedd Cofrestr Safleoedd Ymgeisio Mae Cyngor Sir Caerfyrddin bellach wedi cyhoeddi ei Gofrestr Safleoedd Ymgeisio fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisio i'w gweld ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.gov.uk ac yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor, ac yn swyddfeydd y Gwasanaethau Cynllinio – rhif ffôn 01267 224805.

14. CYLLID

14.1 **Ceisiadau Ariannol:**

14.1.1 Gŵyl Dewi Drwg £250

14.1.2 Cymdeithas Cerdd Llambed £200

14.1.3 Clwb Ffermwyr Ifainc Ceredigion £50.00

14.2 **Penderfynwyd i beidio a chyfrannu** tuag at yr elusennau canlynol megis: Cymorth i Ddioddefwyr; Gofal mewn Galar Cruse a Relate (pobl perthynas)

14.3 **Cyflog y Clerc** (Ionawr) £497.00

14.4 **Golau/Gwres/Storio**: £20.00

14.5 **Treth Incwm a Chyfraniadau YC**: £91.36

14.6 **Adroddodd y Gyng. D.Williams** yn y cyfarfod blaenorol o'r angen am yswiriant ychwanegol ar gyfer cynghorwyr 75+. Cytunodd y Maer i gyfeirio canllawiau ynglŷn â'r mater i'r Clerc.

14.7 **Mae £40,000 o arian y CT wedi eu trosglwyddo** i'r Gymdithas Adeiladu Abertawe. Oherwydd gostyngiad yn yr economi teimlwyd mai'r cam doethaf fyddai gwasgaru arian wrth gefn y CT dros nifer o fanciau. Y nifer presennol yw tri ohonynt sef Lloyds TSB (Llanbedr PS), Cymdeithas Adeiladu Abertawe a'r Alliance & Leicester (Bolton)

14.8 **SWALEC:** Goleuadau Nadolig di-fetr £907.64 (heb TAW £768.25)

14.9 Joshua Yardley: canu'r offeryn cerdd ar Ddydd Sul y Cofio 2008 £20.00

14.10 Hirio Swyddfa Menter Llambed: 17/02/2009 parthed Cae Maesyderi £15.00

14.11 Eisteddfod yr Urdd 2010 – Apêl Llambed £500

14.12 Llogi Neuadd y Dref – cyfarfod y CT 29/01/2009: yn rhad ac am ddim: penderfynwyd diolch i'r Ymddiriedolaeth Highmead am eu haelioni.

14.13 Llogi Neuadd y Dref: CSC: Cyfarfodydd y CT: 7/10/08; 30/10/08; 27/11/08@ £20.50 y cyfarfod = £61.50.

14.14 Llogi Neuadd Fictoria, leaunc Mewn Ysbryd: Te Prynhawn: 8/10/08; 22/10/08; 5/11/08; 19/11/08 & 3/12/08 @ £10.25 y sesiwn £51.25.

14.15 Goleuadau Addurnol Nadolig 2008: Mae'r Cyngor Sir, unwaith yn rhagor yn cynnig cymorth ariannol tuag at gost Goleuadau Addurnol Nadolig yn nhrefi Ceredigion. Caiff y grant ei gyfrif ar sail £1 am £1 tuag at gostau refeniw y goleuadau (coed, bylbiau golau, costau rhedeg trydan ayyb) hyd at uchafswm o £545 ar gyfer Nadolig 2008.
Cyflwynwyd anfonebau priodol i'r Cyngor Sir, fel y derbyniwyd gan Mr Sam Thomas.

14.16 Llythyr yn diolch i'r CT am y cyfraniad o £50 at Gynllun Fan Bobi d/l yr Heddlu Dyfed Powys.

14.17 Calor Pentref y Flwyddyn: Cyfraniad o £1,000 at goffrau'r CT. Er i'r ffurflen gais a'r canllawiau a oedd yn cyfansoddi'r termau ac amodau ar gyfer cymryd rhan yn y gystadleuaeth, yn egluro mai £500 oedd y wobr ar gyfer buddugolwyr rhanbarthol, daethpwyd at sylw Nwy Calor Cyf o'r camgymeriad teipio ar eu gwefan yn mynegi'n anfwriadol mai £1,500 oedd y wobr ar gyfer buddugolwyr rhanbarthol. Er i hyn wrthdaro â'r manylion ar y ffurflen gais, penderfynwyd, serch hynny fel mesur o ewyllus da i wneud tâl ychwanegol o £1,000 ar gyfer y buddugolwyr rhanbarthol.

14.18 Llogi Neuadd San Pedr (Cyfarfod Misol 26/02/2009) @£7.50 yr awr=£22,50.

15. IS-BWYLLGORAU

15.1 LLWYBRAU CERDDED (gan gynnwys Parc-yr-Orsedd)

15.1.1 Grant Cynllun Llwybrau Cymunedol CSC 2009-10: llythyr dan law'r CSC yn mynegi bod £487.50 wedi ei glustnodi i'r Cyngor Tref ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf. Penderfynwyd gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer torri gwair ym Mharc-yr-Orsedd dros fisoedd yr haf ac i gynnal a chadw'r llwybrau cerdded. (Boed i'r Cyng A.Carter gyflwyno cais am grant o £650 ar y 6/01/2009 ar gyfer gwaith cyffredinol ar lwybrau 61-20; 61-15 x2; 62-11 x2; 62-10x2; 62-17; 62-6/7/8). *Cynllun Gwella Tramwy CSC* a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 **(**gwnaed cais am gymhorthdal ar gyfer y llwybr yn arwain o iard yr hen orsaf at Longwood; gwneud gwellianau i'r llwybr Forest Walk/Heol y Wîg a gwella cyflwr y llwybr Gwêl y Creuddyn i Aberaeron Cyfeirnod 61/16): yn disgwyl clywed oddi wrth Gyngor Sir parthed y *Cynllun Gwella Tramwy.*

15.1.2Parc-yr-Orsedd: Cynhelir y Lansiad Swyddogol ar Ddydd Mawrth 28ain Ebrill am 2.00pm. Agorir y digwyddiad gan Faer y Dref. Gwnaed trefniadau ar gyfer y Cyng Greg Evans a Hag Harris i wneud cyflwyniadau byr yn ystod y Lawnsiad. Bydd cyfrifoldeb ar gyfer datganiadau i'r Wasg yn gorffwys ar ysgwyddau'r Cyngor Chwaraeon.

Penderfynwyd defnyddio Neuadd Fictoria ar gyfer y croeso anffurfiol/ lluniaeth.

15.1.3 Mynedfa Newydd ar gyfer Parc-yr-orsedd: Derbyniwyd 2 amcanbris o £4,100 (gan gynnwys TAW) a £4,700 gan y Cyngor Sir ar gyfer gosod set newydd o gerrig concrit a gât diogel i blant sy'n cau ar ben ei hun ar fynedfa maes chwarae Parc-yr-Orsedd. Derbyniwyd amcanbris ychwanegol gan Mr Gllanville Evans sef £3,900 (heb TAW) – i adeiladu rhemp, gwella cyflwr y ffens drwy ychwanegu rheiliau-D ychwanegol, gosod palmant a llechi cyffyrddol, prynu a gosod gât mochyn yn ôl y cyfarwyddiadau. Llafur a defnydd gan gynnwys hurio palwr). Penderfynwyd derbyn amcanbris Mr Evans.

15.1.4 Boed i'r Cyng. Chris Thomas ymgymryd ag arolwg o Barc-yr-Orsedd

Adroddiad gan y Cyng. C.Thomas – Parc-yr-Orsedd- Chwefror 2009

- **Ffens ar y ffîn** / Parc-yr-Orsedd a Heol y Gogledd – angen ffens/mynedfa newydd cyn gynted â bo modd. Wedi'i drafod gan y CT. Dyfynbrisiau wedi eu derbyn.
- **Pont ar y stâd.** Gwifrau ble gellir cerdded ar y bont - wedi eu ddifrodi. Atgyweiriwyd y broblem.
- **Mae'r llythrennau'r wyddor** yn dangos arwyddion pydru, bydd angen eu newid yn fuan iawn.
- **Castell** – mewn cyflwr da.
- **Mae'r tir o gwmpas y castell** wedi disgyn, mae angen chwynnu'r ardal gyfan a chodi'r boncyff i fyny er mwyn gadael i'r aer i gylchredeg. Dylai hyn godi lefel y boncyff i'r dyfnder angenrheidol. Byddai'n werthchweil, efallai i archebu boncyff ychwanegol ar gyfer yr ardal yma. **i wneud cyn gynted â phosibl**.
- **Mae'r meinciau yn dangos arwyddion o draul** h.y. mae'r cot o blasting yn cracio a mae'r meinciau'n berchen ar ochrau miniog mewn mannau. Bydd angen cael gwared â'r ochrau miniog neu eu peintio â phaint Hammeright. Neu efallai newid y meinciau am feinciau newydd. Mae slatiau pren a oedd wedi eu hollti yn flaenorol wedi eu newid am rai eraill.
- **Mae slabiau concrit o dan y fainc bicnic ger y bont** yn anwastad. Gellir eu gweld fel perygl baglu a mae angen eu gosod am yr eildro. (Gellir efallai ymgymryd â'r gwaith pan fydd y gwaith yn ymwneud â'r fynedfa Parc-yr-Orsedd/Heol y Gogledd yn cael ei gario allan).
- **Gatiau ger y fynedfa** yn dangos arwyddion rhwd. Dylid eu glanhau â brws wirsen cyn eu peintio am yr eildro.
- **Fframau Dringo** – mewn cyflwr da.
- **Ceffylau Pren** – yn dechrau pydru. Mae angen eu hasesu'n gyson. Nid oes disgwyl iddynt barhau yn hwy nag un bwyddyn arall man pellaf.
- **Meinciau Picnic** – mewn cyflwr da ar y cyfan – triniaeth yn angenrheidiol ar gyfer un ohonynt yn unig.
- **Biniau Sbwriel**: Bachau ar gloriau'r holl finiau wedi eu torri.

Byddaf yn cysylltu ag Adran y Parciau a Gerddi CSC i weld petai'n bosibl derbyn cloriau newydd.

Mae peth gwaith cynnal a chadw wedi ei gario allan dros gydol y flwyddyn.

15.2 CTCC

15.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Mis Ionawr CSC: bu yna 2 gais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â difrod troseddol (3/01/2009) a dolurio (4/01/2009) .

15.3 GOLEUADAU STRYD

15.3.1Mae'r golau stryd ger yr Orsaf Ambiwlans a Llys Idwal yn ddiffygiol ers sawl misoedd, er i'r mater gael ei adrodd i GSC nifer o weithiau – i'w hatgofio unwaith yn rhagor.

15.4 PALMANTAU

15.4.1 Penderfynwyd adrodd i GSC fod y slabiau'r palmant sydd wedi eu lleoli tu allan i'r Ddeintyddfa, Stryd y Farchnad yn berygl baglu. Mae ochrau oddeutu 10 ohonynt yn rhydd ac yn ymwthio allan . Mae problemau'n bodoli hefyd ar y palmant rhwng Siôp Gwilym Price a'r Siôp Spar.

16. U.F.A.

16.1 Gofynnodd y Gyng. D.Williams tybed a fyddai'n bosibl i'r CT gymryd cyfrifoldeb am Ginio'r Trydydd Byd, unwaith y flwyddyn, a gydlynir gan Eglwys San Pedr yn fisol. Roedd aelodau'n gytun i wneud hyn.

16.2 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ariannu cynllun, bob pythefnos yn y Neuadd Fictoria, sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i ymgymryd ag ymarfer corff ysgafn i gerddoriath

16.3 Cynhelir y Disgo Flynyddol i Ddisgyblion Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ar Ddydd Mercher 25ain o Fawrth am 1:00pm. Gwerthfawrogir help llaw Cynghorwyr (a phartneriaid) ar gyfer yr achlysur.

.Daeth y Cyfarfod i ben am 10.20pm.

17. Dyddiadau y cyfarfod nesaf:

Nos Iau 26ain o Fawrth am 7.00pm – Cyfarfod Cyhoeddus ynglŷn â Chae Maesyderi i a'r Cyfarfod Misol ddilyn yn syth ar ôl hynny.

----------(Cadeirydd & Dyddiad)